Independent Office for Police Conduct
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Hysbysiad Preifatrwydd

Sut yr ydym yn prosesu'ch data personol at ddibenion cyflogaeth a chysylltiedig.

Pwy ydyn ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ("IOPC")[1] i oruchwylio system cwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a chynnal hyder y cyhoedd ynddi.[2] Amlinellir ein pwerau a dyletswyddau yn bennaf yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 ("PRA") a rheoliadau cysylltiedig. Er mwyn bodloni ein cylch gwaith statudol rydym yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i gamymddygiad honedig a marwolaethau neu anafiadau difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Rydym hefyd yn pennu apeliadau o ymchwiliadau heddlu lleol i gŵyn. Rydym yn defnyddio dysg o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau wrth blismona gyda'r bwriad o hyrwyddo arfer gorau. Gwnawn hyn trwy wneud datganiadau cyhoeddus, gwaith allgymorth gyda rhanddeiliaid, gwneud argymhellion sefydliadol, cynnal ymchwil, dadansoddiad a choladu ystadegau er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau â thema.

Am ragor o wybodaeth ar yr hyn a wnawn, ewch i'n gwefan.

Pam ein bod ni'n prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r IOPC yn ymrwymedig i barchu a diogelu eich preifatrwydd. Esbonia'r hysbysiad hwn sut ac at ba ddiben/dibenion y bydd IOPC yn casglu ac yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi i weinyddu ein perthynas gyflogaeth neu gytundebol gyda chi a gweithgareddau cysylltiedig. Os ydym yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, rydych chi'n "destun data." Fe allech chi fod yn destun data at ddibenion yr hysbysiad hwn os ydych chi:

- yn weithiwr cyfredol
- yn weithiwr blaenorol
- yn ddarpar weithiwr
- yn staff asiantaeth
- yn brentis
- yn ymgynghorydd

[1] Y Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu gynt. Sefydlwyd IOPC ar 8 Ionawr 2018.
[2] Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis CThEM, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ac Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

- yn fyfyriwr neu'n intern
- yn gontractwr
- yn rhywun ar secondiad
- yn unigolyn sy'n cynrychioli cyflenwr darparwr gwasanaeth 3ydd parti (er enghraifft cynrychiolydd ein darparwyr lechyd Galwedigaethol neu weinyddwyr ein cyflogres).

Mae'r IOPC yn casglu ac yn cadw data personol sy'n berthnasol i'ch darpar gyflogaeth, cyflogaeth gyfredol neu flaenorol a swyddogaethau perthnasol. Byddwn hefyd yn casglu ac yn cadw data personol pan fyddwch chi'n ymgymryd â gwaith gyda ni neu'n darparu eich gwasanaethau i ni o dan unrhyw drefniant cytundebol arall. Defnyddiwn eich data personol yn ôl yr angen er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau i chi fel ein gweithiwr ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a allai fod gennym fel cyflogwr neu o dan ein trefniant cytundebol. Byddwn hefyd yn rhannu'r data hwn gyda thrydydd partïon yn ôl yr angen (gweler adran "Gyda phwy yr ydym yn rhannu'ch data" isod).

Byddwn hefyd yn defnyddio data personol i lunio dadansoddiad ystadegol ac ymddygiad yn unol â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol eraill megis ymateb i geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Lle fo'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw.

Byddwn yn casglu'ch data personol o nifer o wahanol ffynonellau gan gynnwys: chi, aelodau'ch teulu, eich canolwyr, sefydliadau addysgol blaenorol a chyfredol yr ydych chi wedi'u mynychu neu yn eu mynychu, eich cyflogwr blaenorol neu gyfredol, darparwr gofal iechyd a / neu ddarparwr iechyd galwedigaethol, eich Meddyg Teulu, eich asiantaeth, eich Undeb, yr heddlu, asiantaethau diogelwch, adrannau llywodraeth, Coleg Plismona, darparwyr gwasanaeth trydydd parti (gan gynnwys darparwyr ar gyfer ein llwyfan recriwtio, ein systemau TG swyddogaeth Adnoddau Dynol mewnol a gweinyddu ein cynllun talebau gofal plant), Dysgu'r Gwasanaeth Sifil a darparwyr eraill ar systemau rheoli dysgu neu hyfforddiant, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland, eich banc, CThEM a'ch darparwr pensiwn.

Ymhlith y dibenion cyflogaeth a chysylltiedig y byddwn yn prosesu'ch data personol y mae:

- cynnal cofnodion cyflogaeth cywir
- darparu geirdaon
- at ddibenion recriwtio a dethol (gan gynnwys eich hawl i weithio a statws preswyl)
- i weithredu'r gyflogres (gan gynnwys ad-dalu treuliau), gweinyddu'ch pensiwn ac unrhyw fuddion eraill fel y bo'n briodol, bydd hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth megis eich cyflog, dibynyddion, dyfeisiau adnabod llywodraeth megis eich rhif yswiriant gwladol a'ch manylion cyfrif banc
- gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer darpar weithwyr a gweithwyr cyfredol ac i sicrhau cyngor iechyd galwedigaethol
- cadw cofnod o'ch manylion cyswllt (gan gynnwys manylion cyswllt brys)
- cynnal gweithdrefnau fetio cyn ac ôl cyflogaeth gan gynnwys gwiriad DBS a

gweithdrefnau clirio diogelwch eraill

- ar gyfer monitro defnydd staff o systemau IOPC yn unol â'n polisïau diogelwch, gan gynnwys mynediad at safle, cyfrifiadur a defnydd ffôn ac adrodd am doriadau data neu weithgareddau amheus lle fo'n briodol

- ar gyfer monitro safle IOPC (gan gynnwys gan deledu cylch cyfyng) at ddibenion diogelu'r IOPC a'i weithlu yn erbyn anaf, lladrad, twyll atebolrwydd cyfreithiol neu gam-drin

- hwyluso, cynnal cofnodion cywir a sicrhau cydymffurfiad â pholisïau rheoli gweithle IOPC (gan gynnwys salwch, gwyliau blynyddol a mathau eraill o absenoldeb, perfformiad gwael, disgyblaeth, achwyniad, chwythu'r chwiban a diogelwch gwybodaeth)

- gweithredu a chadw cofnod o fathau eraill o absenoldeb megis absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu

- ar gyfer ymchwilio i gwynion difrifol a wneir yn erbyn staff IOPC. Rheolir cwynion o'r fath gan Uned Ymchwiliadau Mewnol IOPC (IIU).[3]

- monitro cydymffurfiad staff gyda Chod Ymddygiad IOPC, Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau a Chofrestr Lletygarwch a Rhoddion

- monitro presenoldeb, a chyfranogiad, mewn digwyddiadau hyfforddi cysylltiedig â gwaith a rhai galwadau a chynadleddau fideo, mewnol, yn allanol ac ar-lein (er enghraifft trwy wefan Dysgu'r Gwasanaeth Sifil)

- monitro data recriwtio a chysylltiedig â pherfformiad megis amcanion, sylwadau, adborth, sgiliau a gallu, cymwysterau cysylltiedig â gwaith a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i Gofnodion Datblygu Personol staff

- cynhyrchu ystadegau perthnasol a chynnal dadansoddiad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb

- monitro ac adrodd ar gyfle cyfartal

- gwneud datgeliad priodol at ddibenion cyflogaeth ac achosion cyfreithiol cysylltiedig eraill

- hyrwyddo'r IOPC trwy fideos a llenyddiaeth hyrwyddo

- ymgymryd â'n rhwymedigaethau cytundebol gyda chyflenwyr trydydd parti a darparwyr gwasanaeth

- er mwyn hwyluso a phrosesu cwyn a wnewch neu adborth gennych ynghylch y cyswllt a gawsoch gyda ni

[3] Yn unol â Rheoliadau IPCC (Ymddygiad Staff) 2004

- hwyluso cyfathrebu rhwng gwahanol rannau o'r sefydliad a lefelau rheoli

Math o wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i phrosesu

Data personol

Cyfeiria data personol at unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw wrtho. Gall y dull adnabod fod trwy wybodaeth yn unig neu ar y cyd â gwybodaeth arall.

Gallai'r data personol yr ydym yn ei gasglu amdanoch chi gynnwys, ond heb ei gyfyngu i: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. e-bost a rhifau ffôn), rhyw, statws priodasol, dyddiad a man geni, cenedligrwydd, manylion pasbort, trwydded yrru, cyflogwr, cymwysterau a hanes addysgol, teitl swydd a hanes cyflogaeth, hanes pensiwn, a ydych chi ar restr wahardd yr heddlu, manylion teuluol gan gynnwys eu perthynas â chi, eich perthynas ag eraill, delweddau ohonoch chi gan gynnwys ffotograffau a lluniau teledu cylch cyfyng, recordiadau galwadau a fideos, data lleoliad neu ddynodwr ar-lein, manylion ariannol, rhif yswiriant gwladol, recriwtio a gwybodaeth gysylltiedig â pherfformiad

Data categori arbennig

Mae gan rai categorïau data personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol wrth gael eu prosesu. Y categorïau hyn yw data am eich iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, barnau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur, data genetig, data biometreg neu ddata yn ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu duedd rywiol.

Gallai'r data categori arbennig y byddwn yn ei gasglu a'i brosesu amdanoch chi gynnwys, ond heb ei gyfyngu i: gwybodaeth feddygol (e.e. at ddibenion ymgymryd ag addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, asesiadau risg a chymhwyso ein polisi salwch); eich tarddiad hiliol neu ethnig a/neu eich credoau crefyddol a thueddfryd rhywiol (e.e. ar gyfer monitro cyfle cyfartal, wrth lunio ystadegau a chynnal dadansoddiad at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Lle fo'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw.

Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth a ddarperir gan eich undeb llafur at ddiben gweinyddu'ch tanysgrifiad trwy'r gyflogres.

Fel rhan o gliriad diogelwch uwch sy'n ofynnol ar gyfer rhai gweithwyr fe allem gasglu a phrosesu data categori arbennig yn ymwneud â'ch perthnasau personol.

Data trosedd

Mae gan brosesu data troseddol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol hefyd. Mae data trosedd yn cynnwys gwybodaeth am honiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol ac euogfarnau troseddol.

Nid yw'r IOPC yn cadw cofrestr gynhwysfawr o euogfarnau troseddol neu rybuddiadau darpar staff neu staff cyfredol. Serch hynny, fel rhan o'n prosesau cyn-gyflogaeth bydd pob person yn amodol ar gliriad diogelwch a fydd yn cynnwys casglu gwybodaeth am unrhyw euogfarnau neu rybuddiadau troseddol gennych chi a chan drydydd partïon.

Bydd IOPC yn cadw'r wybodaeth hon yn ystod cyfnod eich cyflogaeth ac ar ôl hynny o dan rai amgylchiadau.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data

Cytundeb a rhwymedigaeth gyfreithiol

Os ydych chi'n gyflogai byddwn yn casglu a phrosesu eich data categori arbennig neu droseddau, yn cynnwys ei ddarparu i drydydd partïon, pan fydd yn angenrheidiol gwneud hynny i berfformio ein contract cyflogaeth gyda chi neu pan fydd mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (er enghraifft, gwneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac oherwydd ymrwymiad dan gyfraith cyflogaeth).[4]

Os byddwch chi'n cynnal gwaith gyda ni neu'n darparu'ch gwasanaethau i ni o dan unrhyw gytundeb arall byddwn yn casglu ac yn prosesu'ch data personol, categori arbennig neu drosedd, gan gynnwys ei ddarparu i drydydd partïon, lle fo'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn ymgymryd â'r cytundeb hwnnw.

Caniatâd

Fel darpar weithiwr (cyn i chi fynd i gytundeb cyflogaeth gyda ni) ni fyddwn yn casglu a phrosesu'ch data personol, categori arbennig neu droseddol oni bai eich bod chi'n rhoi caniatâd penodol i wneud hynny. Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl unrhyw bryd. Serch hynny, os byddwch chi'n tynnu'ch caniatâd yn ôl neu'n gwrthod darparu'r data gofynnol ar gyfer y broses recriwtio efallai na fyddwn ni'n gallu datblygu'ch cais yn gywir neu o gwbl.

Fel gweithiwr cyfredol ar brydiau efallai y bydd hi'n angenrheidiol ceisio eich caniatâd penodol i brosesu'ch data personol, gan gynnwys data categori arbennig. Er enghraifft, lle'r ydych chi'n gwneud cais am, ac yn defnyddio, Dyfais Diogelwch Personol, sydd â'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth am eich iechyd i ddarparwr gwasanaeth trydydd parti am ddyfeisiau o'r fath, bydd angen eich caniatâd.

Pa bryd bynnag y byddwn ni eisiau prosesu'ch data trwy ganiatâd, cyn rhoi'ch caniatâd byddwch chi'n derbyn ffurflen ganiatâd. Bydd hyn yn esbonio:

- yr hyn y gofynnir i chi gytuno i'w wneud a pham
- sut y bydd eich data yn cael ei ddefnyddio
- enwau unrhyw reolyddion trydydd parti a fydd yn dibynnu ar y caniatâd;
- eich hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl unrhyw bryd;
- y broses er mwyn tynnu'ch caniatâd yn ôl
- pwy ddylech gysylltu â hwy os oes gennych unrhyw bryderon am ddefnydd eich data.

Angenrheidiol i gyflawni tasg a gyflawnir er lles y cyhoedd

Mae'n bwysig i ni ein bod yn cyflogi'r unigolion priodol i gyflawni rolau penodol yn y busnes. Gall hyn olygu y byddwn ar achlysuron yn gofyn i arbenigwr, nad yw wedi ei gyflogi gan yr IOPC, o faes penodol fel TG, diogelwch neu gyllid, i eistedd ar banel cyfweld

[4] Erthygl 6(1) (b); Erthygl 9(2)(b); Erthygl 10 GDPR. Adran 10(5) a Rhan 1 (1), Atodlen 1 DPA 2018.

er mwyn helpu gwneud penderfyniad ar arbenigedd yr ymgeiswyr mewn cyfweliad. Credwn ei bod yn angenrheidiol defnyddio arbenigwyr o'r fath fel hyn gan ei fod yn sicrhau ein bod yn cyflogi'r unigolion priodol i helpu a hwyluso cyflawni ein tasgau fel awdurdod cyhoeddus.

Monitro Cyfle Cyfartal

Gallai data categori arbennig gael ei brosesu gennym ni lle mae'n angenrheidiol at ddibenion adnabod neu adolygu bodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth rhwng grwpiau o bobl a nodir yn Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 8(2) Deddf Diogelu Data 2018. Bydd y prosesu hwn gyda golwg i alluogi cydraddoldeb i gael ei hyrwyddo a'i gynnal ac nad yw'n cael ei gynnal at ddiben mesur neu benderfyniadau mewn cysylltiad â thestun data penodol. Ni fydd prosesu o'r fath yn cael ei gynnal lle mae caniatâd wedi'i wrthod neu os ydych chi wedi rhoi rhybudd nad ydych chi'n dymuno i'ch data gael ei brosesu at y dibenion hyn. Ni fydd yn cael ei gynnal os yw'n debyg o achosi difrod neu aflonyddwch sylweddol i unigolyn. Bydd unrhyw ddata a ddefnyddir at y diben hwn yn ddienw.

Buddiannau Cyfreithlon

O dan rai amgylchiadau byddwn yn prosesu data categori arbennig ar y sail bod gan IOPC fudd cyfreithlon wrth wneud hynny. Er enghraifft, pan fyddwn ni'n casglu gwybodaeth am bwy i gysylltu â hwy mewn achos brys a phan fydd monitro teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio ar safle'r gweithle. Rydym yn ystyried bod sicrhau bod gennym fanylion cyswllt mewn achos o argyfwng yn cynnwys ein staff a diogelu diogelwch ein safle a'r wybodaeth o'i fewn yn fuddiannau cyfreithlon.

Byddwn bob amser yn ceisio cydbwysedd o'n buddiannau cyfreithlon gyda hawliau a rhyddid sylfaenol testunau data.

Mae ein dogfen bolisi briodol i'w chael yma. Yma ceir manylion pellach ar ein hymdriniaeth i brosesu data categori arbennig a data trosedd.

Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu'ch data

At ddibenion cyflogaeth, cytundebol a chysylltiedig a amlinellir uchod bydd angen i ni rannu'ch data personol gyda thrydydd partïon. Y categorïau o bobl yr ydym yn rhannu'ch data personol â hwy yw:

- ein darparwr cyflogres
- ein darparwr pensiynau
- darparwyr budd cysylltiedig â gwaith (er enghraifft gweinyddwyr ein cynllun taleb gofal plant)
- CThEM ac adrannau llywodraethol eraill
- cyrff cyhoeddus
- ein darparwr gofal iechyd a / neu ein darparwr iechyd galwedigaethol
- eich banc (er enghraifft pan fyddwch chi'n gofyn i ni eich cynorthwyo chi gyda chais am forgais)
- Disclosure Scotland a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (at ddibenion diogelwch a gweithdrefnau fetio eraill)

- Uned Ymchwiliadau Mewnol yr IOPC (IIU)
- cynrychiolwyr yn y gweithle
- asiantaethau cyflogaeth
- cyflenwyr trydydd parti a darparwyr gwasanaeth (e.e. darparwyr ein Dyfeisiau Diogelwch Personol a'n systemau TG swyddogaeth Adnoddau Dynol mewnol)
- y cyhoedd (er enghraifft at ddibenion tryloywder bydd IOPC yn cyhoeddi manylion perthnasol uwch staff o'i Gofrestr Lletygarwch a Rhoddion a Chofrestr Gwrthdaro Buddiannau).

Mae gofyn i ni hefyd rannu'ch data gyda thrydydd partïon os oes rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill ac adrannau llywodraeth er mwyn hwyluso unrhyw ddefnydd ar eu swyddogaethau statudol neu gyhoeddus eraill. Er enghraifft, i gynorthwyo gyda chyhoeddi gwŷs tyst neu lle mae'ch enw yn ymddangos ar ddeunydd yr ydym yn rhwym yn gyfreithiol i'w ddatgelu ar gyfer achosion troseddol neu gyfreithiol eraill Y categorïau o unigolion yr ydym yn rhannu'ch data â hwy yw:

- crwneriaid
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- llysoedd a thribiwnlysoedd
- cyrff cyhoeddus (er enghraifft, Coleg Plismona)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill
- cyrff rheoleiddio neu ombwdsmyn gan gynnwys HMICFRS, HMIP, ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- cynghorwyr proffesiynol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr

Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio

Mae ein proses recriwtio yn cynnwys rhai penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio. Er enghraifft, bydd ymatebion penodol i gwestiynau megis eich hawl i fyw a gweithio yn y DU yn arwain at eich cais yn cael ei derfynu yn awtomatig.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'ch data

Mae gan IOPC amserlen cadw a gwaredu sy'n rhestru'r data yr ydym yn ei gadw amdanoch chi ac am ba mor hir yr ydym yn ei gadw. I weld am ba mor hir fyddwn ni'n cadw'ch data, gweler ein hamserlen cadw a gwaredu yma.

Eich hawliau mewn perthynas â'r data yr ydym yn ei gadw

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi yn ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn amodol ar rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn

- yr hawl i geisio cyfyngiadau i brosesu'ch data
- yr hawl i wrthwynebu i'ch data gael ei brosesu
- yr hawl i gael eich data wedi'i ddileu
- yr hawl i gael eich hysbysu am sut y mae'ch data yn cael ei brosesu
- hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau wedi'u hawtomeiddio a chludadwyedd data

Dylech ein hysbysu ni o unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth er mwyn i ni allu bod yn hyderus bod y data yr ydym yn ei gadw amdanoch chi yn gywir.

I ddeall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w defnyddio gweler ein tudalen gwe yma

Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Y rheolydd data sydd â'r rheolaeth gyffredinol dros ddiben a'r modd yr ydym yn casglu a phrosesu data personol.

Mae gan yr IOPC Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ddefnyddio'ch hawliau data neu'r ffordd yr ydym yn casglu, yn trin neu'n prosesu'ch data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy'r dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan neu trwy anfon e-bost at dpo1@policeconduct.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Eich hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ydym wedi prosesu'ch data personol, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF
www.ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113
casework@ico.org.uk

Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os dymunwch chi roi adborth neu gwyno am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n Huned Ymchwilio Mewnol naill ai trwy tudalen cysylltwch â ni ein gwefan neu trwy anfon e-bost at IIU@policeconduct.gov.uk.

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener neu adael neges unrhyw bryd ar 0207 166 3261.

Adolygu'r hysbysiad hwn

Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac fe allai gael ei ddiwygio. Ymwelwch â'n gwefan yma i wirio am unrhyw ddiweddariadau.